

# Rheoli adnoddau naturiol heddiw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

## Ein Cynllun Corfforaethol hyd at 2022 - Crynodeb





Cyfoeth Naturiol Cymru,  
29 Ffordd Casnewydd, Caerdydd CF24 0TP  
Argraffwyd ar bapur Cocoon wedi'i ailgylchu 100%

0300 065 3000  
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk  
www.cyfoethnaturiol.cymru

Hoffem ddiolch i'r staff a gyfrannodd eu geiriau a'u lluniau  
i'w defnyddio yn y crynodeb hwn.  
Clawr: hawlfraint VisitWales



Diane McCrea,  
Cadeirydd

Mae amgylchedd naturiol Cymru yn eithriadol ac yn ysbrydoledig. Dyma'r sylfaen ar gyfer ein hiechyd, ein llesiant a'n ffyniant. Mae'n darparu'r aer yr ydym yn ei hanadlu, y dŵr yr ydym yn ei yfed a'r bwyd yr ydym yn ei fwyta. Mae'n darparu ynni a deunyddiau crai. Mae'n hanfodol – ni allwn fyw hebddo – ond, yn rhy aml, rydym yn ei gymryd yn ganiataol.

Mae adnoddau naturiol dan bwysau gan weithgareddau dynol. Mae bioamrywiaeth yn dirywio. Mae ecosystemau yn dod yn llai gwydn ac yn colli'r gallu i addasu i heriau megis newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn golygu eu bod yn

llai galluog i ddarparu'r manteision sy'n cyfrannu at iechyd a llesiant pawb.

Er hynny, gall adnoddau naturiol helpu i fynd i'r afael â llawer o'r problemau yr ydym yn eu hwynebu heddiw – gall plannu coed helpu i leihau llifogydd, lleihau llygredd aer a darparu mannau gwyrdd i bobl eu mwynhau; gall priddoedd sy'n cael eu rheoli'n dda wella ansawdd dŵr, storio carbon a pharhau i dyfu bwyd. Mae cyfleoedd enfawr i wella bywydau pawb – ond ni all hyn ddigwydd oni bai fod yr amgylchedd naturiol yn cael ei reoli mewn modd cynaliadwy a bod pawb yn cydnabod y manteision y mae'n eu darparu.

Mae angen i bethau newid – a gallwn i gyd wneud hyn ddigwydd drwy fyw a gweithio'n wahanol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn falch o fod yn arwain y newid hwn.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi cam nesaf ein taith. Mae'n mynd â ni i 2022 a bydd yn esblygu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Rydym yn gobeithio y cewch y crynodeb hwn a'r Cynllun Corfforaethol llawn yn ysbrydoledig ac yn uchelgeisiol – ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi tuag at Gymru fwy cynaliadwy a fydd yn darparu ffyniant i bawb.



Clare Pillman,  
Prif Weithredwr



Kevin Ingram,  
Prif Weithredwr  
Dros Dro

# Croeso

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn adeiladu ar ein Datganiad Llesiant, a gyhoeddwyd yn 2017. Disgrifiodd hwn ein saith Amcan Llesiant a'r camau y mae angen inni eu cymryd i'w cyflawni.

Maent yn dangos sut rydym am gyfrannu at y nodau sy'n cael eu hamlinellu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Byddwn yn gwneud hyn trwy ddilyn y rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol a rhoi ei hegwyddorion ar waith – ein diben fel y'i nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

O ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, rydym yn golygu gofalu am yr holl adnoddau naturiol (sy'n cynnwys aer, dŵr, pridd, bywyd gwyllt a phrosesau daearegol a hinsoddol) mewn ffordd sy'n sicrhau y byddant ar gael nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol gweithio mewn modd sy'n deall a gwerthfawrogi'r amgylchedd naturiol yn well, ac sy'n fwy cydgyssylltiedig ac yn fwy rhagweithiol. Mae'r ffordd mae pethau'n cael eu

darparu'r un mor bwysig â beth sy'n cael ei ddarparu. Gwnaethom ddatblygu'r Amcanion Llesiant ar y cyd â'n staff a'n rhanddeiliaid.

## Ein Hamcanion Llesiant yw:

1. Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy
2. Sicrhau bod tir a dŵr yng Nghymru'n cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy ac integredig
3. Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau
4. Lleihau'r risg i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd
5. Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy boddhaus
6. Hyrwyddo busnes llwyddiannus a chyfrifol sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi
7. Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad rhagorol, sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf

## Y Cynllun Corfforaethol yw ein cynllun tymor canolig ar gyfer y sefydliad:

	Tymor hir	Tymor canolig	Tymor byr
Cynllyn	Gweledigaeth a rennir hyd at 2050	Cynllun Corfforaethol	Cynllun Busnes
Hyd	20 - 25 mlynedd	3 - 5 mlynedd	1 flwyddyn
Monitro	Dangosyddion sy'n dangos newidiadau yng Nghymru oherwydd gweithgarwch gan yr holl sefydliadau ac unigolion yng Nghymru gyfan	Mesurau perfformiad tymor canolig (3-5 mlynedd) ar gyfer CNC - Dangosfwrdd ein Cynllun Corfforaethol	Targedau blynyddol ar gyfer CNC - Dangosfwrdd ein Cynllun Busnes

Dyma yw ein cynlluniau lefel uchaf. O dan y rhain bydd cynlluniau gweithrediadol megis ein cynlluniau adnoddau naturiol a chynlluniau gwasanaeth tymor canolig.

Mae'r crynodeb hwn yn nodi'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud hyd at 2022 i weithio tuag at gyflawni ein Hamcanion Llesiant a'r rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol yng Nghymru.



# 1

## Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy

### Ble'r ydym yn awr?

Mae ôl troed ecolegol Cymru wedi'i gyfrifo i fod pum gwaith ardal wirioneddol y wlad ac mae'n hadnoddau naturiol yn disbyddu yn gyflymach nag y gellir eu hailgyflenwi.

Pe byddent yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, byddai pobl a busnesau yn cael mwy o fanteision byth o adnoddau naturiol nag y maent yn eu cael eisoes – bwyd, swyddi, hamdden, deunyddiau crai, ynni, aer glân a dŵr. Mae hyn cyhyd â bod pawb yng Nghymru yn manteisio ar y cyfleoedd

ac yn deall yr angen i wneud rhai pethau yn wahanol yn y dyfodol – i fyw a gweithio'n fwy cynaliadwy.

### Beth fydd CNC yn ei wneud?

Byddwn ni yn CNC yn hyrwyddo'r amgylchedd naturiol ac yn helpu pobl i fanteisio i'r eithaf ar y manteision y mae'n eu cynnig, yn ogystal â'i werthfawrogi er ei fwyn ei hun – yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

“ Mae pobl yn dweud; pam ydych chi'n mwynhau'r math hwn o swydd? Mae'n ymwneud â chael y data hirdymor y gallaf edrych arno a dweud mae ni wnaeth hwn ...

Phil Newman  
Uwch Swyddog  
Cadwraeth  
Morol



## Byddwn yn:

- Datblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer yr amgylchedd naturiol yng Nghymru ar gyfer 2050
- Cydgynhyrchu saith Datganiad Ardal sy'n casglu tystiolaeth ac yn nodi cyfleoedd i wneud ecosystemau yn fwy gwydn a darparu mwy o fanteision i bobl
- Helpu i ddatblygu a chyflwyno Cynlluniau Llesiant fel aelodau statudol o holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru
- Datblygu a rhannu tystiolaeth gyda sefydliadau eraill a gwneud y defnydd gorau o'u gwybodaeth
- Arwain yr uchelgais i sector cyhoeddus Cymru fod yn garbon niwtral trwy ein prosiect Carbon Bositif
- Dangos egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ein holl waith, ar draws ein sefydliad cyfan
- Ysbrydoli eraill i fabwysiadu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan helpu i gydweddu anghenion â'r hyn sy'n gynaliadwy a dysgu o arfer da wrth reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar draws y byd



# 2

## Sicrhau bod tir a dŵr yng Nghymru'n cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy ac integredig

### Ble'r ydym yn awr?

Ar hyn o bryd, nid yw tir a dŵr (gan gynnwys yr ardal forol) yng Nghymru yn cael eu rheoli mewn modd integredig ac, er bod ansawdd dŵr ac aer wedi gwella mewn rhai achosion dros y blynyddoedd diwethaf, mae ffordd bell i fynd o hyd cyn bod holl dir a dŵr Cymru wedi'u rheoli'n gynaliadwy.

### Beth fydd CNC yn ei wneud?

Bydd CNC yn cael ei ystyried fel eiriolwr ar gyfer y manteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y gall rheoli tir a dŵr mewn modd

integredig eu darparu, yn ogystal â'r manteision amgylcheddol. Byddwn yn rhoi'r ymagwedd hon ar waith ar y tir a'r dŵr yr ydym yn eu rheoli ein hunain.



“Mae coed a choetir yn fy ysbrydoli. Maent yn rhan o'n tirwedd a'n treftadaeth. Mae ein gwaith yn creu manteision heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol gyda lleoedd i weithio, chwarae ac ymlacio yn ogystal â chynnyg cynefin gwerthfawr i lawer o rywogaethau

Rachel Chamberlain  
Arweinydd Tîm Cynllunio Coedwig



## Byddwn yn:

- Dangos egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ymarferol ar y 7% o dir a dŵr Cymru yr ydym yn ei reoli ein hunain a rhoi cynnig ar ddulliau newydd sy'n gwneud defnydd o'n pwerau arbrofol
- Annog ymagwedd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn partneriaeth â pherchnogion tir a diwydiant, amaethyddiaeth a choedwigaeth
- Gweithio tuag at ddod â chyrrff dŵr hyd at statws ecolegol da erbyn 2027, datblygu system trwyddedu tynnu dŵr ddiwygiedig a chynaliadwy, a helpu cwmnïau dŵr i ddatblygu eu cynlluniau hirdymor
- Datblygu strategaeth rheoli risg ar gyfer newid yn yr hinsawdd ar gyfer tir a reolir gan CNC
- Cwblhau'r adolygiad o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru a dechrau gweithredu'r canfyddiadau
- Datblygu seilwaith gwyrdd, gan gynnwys plannu coetiroedd, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar y cynllun datblygu gwledig ôl-Brexit a'i chefnogi wrth ddatblygu ei Chynllun Morol, Rhaglen Trawsnewid Forol a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol



# 3

## Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau

### Ble'r ydym yn awr?

Mae ein Hadroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (a gyhoeddwyd yn 2016) wedi nodi nad oes gan unrhyw ecosystem yng Nghymru ar hyn o bryd wydnwch da ac ni fydd llawer yn ddigon addasadwy i ddelio â newid yn yr hinsawdd a phwysau eraill.

At ei gilydd, mae bioamrywiaeth yng Nghymru yn dirywio. Mae maint rhai cynefinoedd wedi gostwng yn sylweddol, ac mae cysylltedd rhwng cynefinoedd hefyd wedi lleihau. Mae cyflwr ein hecosystemau yn

gymysg yn dibynnu ar y cynefin penodol.

### Beth fydd CNC yn ei wneud?

Bydd CNC yn chwarae rhan allweddol wrth ddarparu'r Cynllun Adfer Natur, gan weithio gyda chyrff cyhoeddus eraill a'r sectorau preifat a gwirfoddol. Bydd ein rheolaeth ein hunain o dir a dŵr yn esiampl o wydnwch a chysylltedd ecosystemau.



“ Mae cael y cyfle i ofalu am gynefinoedd a gweithio gyda thirfeddianwyr i geisio gwella eu cyflwr fel eu bod nhw o'r safon uchaf bosib yn anhygoel

Rhodri Dafydd  
Uwch Reolwr Gwarchodfeydd

## Byddwn yn:

- Sicrhau ein bod yn ystyried bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau yn ein holl swyddogaethau, gweithgareddau a phrosesau gwneud penderfyniadau ac yn helpu cyrff cyhoeddus eraill i wneud yr un peth
- Gweithio â chyrff cyhoeddus eraill a'r sectorau preifat a gwirfoddol i gyflawni'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur
- Helpu i atal, canfod a rheoli rhywogaethau estron goresgynnol, plâu a chlefydau
- Adfer safleoedd gwarchoddedig i gyflwr ffafriol a rheoli Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol er mwyn eu hadfer ar y tir a'r dŵr rydym yn eu rheoli
- Adolygu safleoedd gwarchoddedig i sicrhau bod gennym y rhwydwaith cywir ar waith a chydweithio â pherchnogion a rheolwyr tir, gan werthfawrogi'r safleoedd hynny fel rhan o rwydwaith mwy ac elfen hanfodol o'r amgylchedd naturiol
- Gwella gwydnwch ecosystemau morol fel rhan o rwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig
- Gweithio â phartneriaid allweddol i wella cynefinoedd afonol drwy Gynllunio Adfer Afonydd gan sefydlu'r eog fel rhywogaeth eiconig sy'n arwydd o ansawdd cynefin ledled Cymru



# 4

## Lleihau'r risg i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd

### Ble'r ydym yn awr?

Mae gan llygredd a llifogydd effeithiau niweidiol eang yng Nghymru, gydag ansawdd aer gwael yn cael ei nodi fel un o'r bygythiadau amgylcheddol uniongyrchol mwyaf i bobl a'r amgylchedd naturiol. Mae digwyddiadau llygredd amaethyddol yn parhau i fod yn broblem gydag effeithiau sylweddol ar gyrsiau dŵr. Llygredd dŵr yng Nghymru sy'n cael ei achosi gan fwyngloddiau metel segur yw'r gwaethaf yn y DU. Er bod cyfraddau ailgylchu yn cynyddu, mae gwastraff peryglus a thipio anghyfreithlon yn parhau i fod yn fater difrifol.

Mae newid yn yr hinsawdd yn debyg o arwain at ragor o ddigwyddiadau tywydd eithafol, gyda phobl sydd wedi'u lleoli ar orlfdiroedd neu gerllaw i arfordiroedd mewn perygl cynyddol. Mae sychder hefyd yn broblem, gydag argaeledd dŵr yn debygol o ostwng mewn rhai ardaloedd.

### Beth fydd CNC yn ei wneud?

Bydd CNC yn gweithio mewn partneriaeth - gan ddarparu arweiniad a chynghor, monitro a thystiolaeth, modelu a rhagweld y tebygolrwydd o ddigwyddiadau, a darparu ymateb effeithiol i ddigwyddiadau sy'n

digwydd. Byddwn yn cael ein hymddiried i argymhell y dull gorau i helpu i leihau'r peryglon i bobl ac i gynefinoedd a bioamrywiaeth. Fel rheoleiddiwr cadarn ond teg, byddwn yn ymchwilio i ddigwyddiadau ac yn defnyddio ein hystod lawn o bwerau i fynd i'r afael â throseddu amgylcheddol pan fydd yn angenrheidiol.



## Byddwn yn:

- Defnyddio ein datganiadau ardal i asesu'r risg o beryglon amgylcheddol, a datblygu atebion yn seiliedig ar natur fel opsiwn cyntaf i leihau eu hamlder/difrifoldeb
- Sicrhau bod y rhain yn cael eu hymgorffori yn y Cynlluniau Llesiant ac yn darparu buddion lluosog lle bo'n bosib, megis creu cynefinoedd a chyfleoedd hamdden
- Gweithio gyda phartneriaid ar fesurau ataliol ac i baratoi ar gyfer digwyddiadau amgylcheddol os byddant yn digwydd
- Cydweithio â sefydliadau fel lechyd Cyhoeddus Cymru ac awdurdodau lleol i dreialu dulliau arloesol o wella ansawdd aer lleol, llygredd gwasgaredig a/neu llygredd amaethyddol, adfer mwyingloddiau metel a delio â slyri
- Cynnal ein hasedau llifogydd presennol ac adeiladu amddiffynfeydd rhag llifogydd i leihau'r perygl i eiddo arall
- Lleihau risgiau llygredd trwy ddefnydd effeithiol o'n pwerau rheoleiddiol

- Cefnogi mentrau megis Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru a Taclo Tipio Cymru



Roeddem yn gweithio ar safle yn Llanelli. Daeth dwy ferch oedd yn byw ar y stryd atom ni. Roedden nhw mor ddiolchgar ein bod ni yno, ac yn falch o'n gweld; mi wnaeth fi'n hapus ein bod ni'n gwneud gwaith da

Allyn Hawkes  
Goruchwyliwr Gweithrediadau

# 5

## Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy boddhaus

### Ble'r ydym yn awr?

Mae problemau iechyd sylweddol a gwahaniaethau sylweddol mewn disgwyliad oes iach rhwng gwahanol ardaloedd yng Nghymru.

Gallai byw mewn a defnyddio amgylchedd naturiol o ansawdd da helpu i fynd i'r afael â rhai o'r rhain fel rhan o ffordd iach o fyw a gwell iechyd corfforol a meddyliol.

Er bod llawer o bobl eisoes yn mwynhau'r byd naturiol, nid yw pawb yn deall y manteision mae'r amgylchedd naturiol yn eu darparu ar gyfer eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae heriau sylweddol o ran ailgysylltu rhai pobl â'r amgylchedd naturiol, gan eu galluogi i ddysgu yn yr awyr agored ac amdano, ynghyd â'r manteision mae'n eu darparu.

### Beth fydd CNC yn ei wneud?

Bydd CNC yn annog mynediad ac yn darparu ystod eang o gyfleoedd ar gyfer hamdden a gwirfoddoli. Bydd gennym fentrau ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Chwaraeon Cymru ac arbenigwyr eraill sy'n defnyddio'r amgylchedd naturiol i wella iechyd a llesiant.

Byddwn yn helpu i'r amgylchedd naturiol gael ei weld yn rhan annatod o gynlluniau llesiant lleol, gyda thirweddau a morweddau Cymru yn ysbrydoli dysgu gydol oes a chymryd rhan mewn chwaraeon a'r celfyddydau.

Y peth rwy'n ei fwynhau fwyaf yw helpu syniadau'r gymuned i ddwyn ffrwyth, a gweld pobl yn gwerthfawrogi'r amgylchedd mewn modd hollol wahanol

Geminie Drinkwater  
Swyddog Prosiect  
(Coetir Cwm Llynfi)



## Byddwn yn:

- Datblygu a rheoli llwybrau cerdded, rhedeg, beicio mynydd a marchogaeth a phwyntiau mynediad, gan ganolbwyntio ar leoedd lle gall hyn ddarparu'r manteision mwyaf
- Cefnogi prosiectau cymunedol a menter gymdeithasol ar dir a dŵr yr ydym yn eu rheoli
- Cyflwyno Cyfle – ein cynllun ar gyfer cefnogi prentisiaethau, ymchwil a lleoliadau gwaith a gwirfoddoli
- Helpu pob plentyn yng Nghymru i brofi a gwerthfawrogi'r amgylchedd naturiol, gan weithio mewn partneriaeth i sicrhau bod dysgu yn yr awyr agored wedi'i gynnwys o fewn y cwricwlwm statudol ar gyfer pob grŵp oedran
- Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru i ddatblygu camau ar y cyd sy'n gwella iechyd a llesiant a sicrhau bod y rhain wedi'u mewnosod mewn Cynlluniau Llesiant
- Gweithio gyda phartneriaid i wireddu manteision Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Cenedlaethol Cymru ar gyfer ymwelwyr a phobl leol fel ei gilydd
- Gweithio gyda phartneriaid, cymunedau ac addysgwyr i hyrwyddo gwerth yr amgylchedd naturiol lleol a'r cyfleoedd y gall eu darparu i wella iechyd, datblygu sgiliau a chefnogi treftadaeth ddiwylliannol Cymru



# 6

## Hyrwyddo busnes llwyddiannus a chyfrifol sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi

### Ble'r ydym yn awr?

Mae dros 90% o'r arwynebedd tir yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth. Mae gan Gymru hefyd lawer o bysgodfeydd dŵr croyw a morol ac mae sicrhau cynaliadwyedd stociau pysgod yn broblem sylweddol.

Mae cyfraddau ailgylchu awdurdodau lleol wedi codi ac, erbyn hyn, dyma'r cyfraddau uchaf yn y DU, yr ail uchaf yn Ewrop a'r trydydd uchaf yn y byd. Mae trydan sy'n cael ei gynhyrchu o ynni adnewyddadwy wedi mwy na threblu ers 2007.

### Beth fydd CNC yn ei wneud?

Bydd gan CNC gysylltiadau cryf â diwydiant ac amaethyddiaeth trwy gyngor a rheoleiddio. Er bod rhai busnesau eisoes yn gweithredu'n gynaliadwy, mae mwy o gyfleoedd ar gyfer twf gwyrdd, gan roi manteision i ddiwydiant ei hun, yr amgylchedd naturiol a phobl Cymru.

Byddwn yn cefnogi'r datblygiad o farchnadoedd amgen yn ogystal â Thalu am Wasanaethau Ecosystemau a byddwn yn defnyddio ein pŵer prynu i ddylanwadu ar ein cyflenwyr a'r sector cyhoeddus ehangach i annog gweithio tuag at economi gylchol.

Rwy'n hoffi meddwl fy mod yn helpu i adael etifeddiaeth i'm merch fel y gall barhau i fwynhau'r pethau hyn

Charlie Lewis  
Swyddog Cymorth  
Prosiectau





## Byddwn yn:

- Cyflawni ein Cynllun Menter, gan gynnwys pren, ynni adnewyddadwy a thwristiaeth
- Hyrwyddo'r rhesymau cymhellol i fusnesau fabwysiadu dull rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan eu helpu i ddeall y manteision i ddiwydiant, pobl a'r amgylchedd naturiol
- Defnyddio ein pwerau arbrofol i weithio gyda thechnolegau sy'n dod i'r amlwg i helpu busnesau weithredu'n gynaliadwy
- Helpu i ddarparu swyddi o ansawdd da ledled Cymru a chefnogi prentisiaethau, lleoliadau gwaith a rhaglenni cyflogaeth Llywodraeth Cymru
- Gweithio gyda'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol, cymdogion a chymunedau i gefnogi defnydd priodol o'r tir a'r dŵr a reolir gennym i ddarparu buddion lluosog
- Cefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu ei hymagwedd at bwerau treth newydd
- Rhoi camau ar waith i weithio tuag at economi gylchol a dim gwastraff yng Nghymru



# 7

## Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad rhagorol, sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf

### Ble'r ydym yn awr?

Ers 2013, rydym wedi sefydlu ein gallu annibynnol, gan ddatblygu ein systemau sy'n briodol i Gymru.

Rydym yn barod i ad-drefnu ein strwythur i gyflawni ein hymagwedd leol, seiliedig ar ardal, gan adeiladu ar waith dros nifer o flynyddoedd at y pwynt hwn.

### Beth fydd CNC yn ei wneud?

Byddwn yn arwain y ffordd i ddyfodol gwell i Gymru trwy reoli amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy. A byddwn yn gwybod ein bod yn

llwyddo oherwydd bydd ein staff a'n cwsmeriaid wedi dweud hynny wrthym.

Rydym yn gofalu am ein staff: yn eu gwerthfawrogi am eu proffesiynoldeb a'u harbenigedd, ac yn gwrando arnynt ac yn dathlu eu hamrywiaeth.

Rydym yn gofalu am ein cwsmeriaid, a byddwn yn cael ein gweld fel partner gwerthfawr gan ein bod yn gwrando, yn ymateb ac yn awyddus i weithio ar y cyd.

Rydym yn gofalu am yr amgylchedd naturiol: dyna pam yr ydym ni yma. Fel rheol, dyma pam mae pobl yn gweithio i CNC.




“Rydym yn parchu hunaniaeth ein cwsmeriaid a'r partneriaid yr ydym yn gweithio gyda nhw, ac yn ceisio darparu'r gwasanaethau hynny yn eu dewis iaith, Cymraeg neu Saesneg fel y dymunant.

Lyn Williams  
Swyddog Iaith Gymraeg

## Byddwn yn:

- Ysbrydoli, ysgogi a grymuso ein staff i ymgorffori ein gwerthoedd, a bod yn llysgenhadon i ni
- Sicrhau ein bod yn gwrandao ar staff, yn deall eu safbwyntiau ac yn gwella CNC fel lle i weithio
- Lleihau ein heffaith amgylcheddol a'n ôl troed carbon ein hunain, gan ddangos arweinyddiaeth mewn datgarboneiddio yn y sector cyhoeddus
- Galluogi ein cwsmeriaid i wneud busnes gyda ni ar-lein – gan mai dyma'r ffordd symlaf, rataf a chyflymaf i wneud hynny
- Cefnogi rhannu ehangach a'r defnydd effeithlon o'n hasedau, megis swyddfeydd a'r fflyd, er mwyn helpu i symud tuag at wasanaeth cyhoeddus effeithlon ac integredig i Gymru
- Gweithredu ymagweddau peilot newydd at ein gwaith rhoi grantiau
- Treialu a rhannu ein dull newydd o gaffael ar draws y sector cyhoeddus



I weithredu'r Cynllun Corfforaethol, bydd angen i ni reoli'n hadnoddau'n ofalus - staff ac arian - gan sicrhau ein bod yn darparu gwerth da am arian.

Dros y ddwy i dair blynedd nesaf, byddwn yn newid - i sefydliad mwy integredig a lleol, gan ddefnyddio dull cenedlaethol yn unig lle mae'n gwneud mwy o synnwyr i wneud hynny.

Byddwn yn symud tuag at sefydliad sy'n galluogi mwy, lle byddwn yn helpu partneriaid i weithio gyda ni i helpu i gyflawni canlyniadau ar y cyd.

Byddwn yn mesur perfformiad, trwy ddangosyddion sy'n cyd-fynd â'r weledigaeth hirdymor ar gyfer yr amgylchedd naturiol yng Nghymru, mesurau ar gyfer ein Cynllun Corfforaethol, a thargedau blynyddol ar gyfer ein Cynllun Busnes.

Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn uchelgeisiol ac yn drylwyr wrth fonitro'r amgylchedd naturiol yng Nghymru a'r manteision y mae'n eu darparu, a'n perfformiad ein hunain a sut yr ydym yn cyfrannu at lesiant yng Nghymru ar hyn o bryd ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Am ragor o wybodaeth darllenwch ein Cynllun Corfforaethol llawn [www.cyfoethnaturiol.cymru](http://www.cyfoethnaturiol.cymru)